

Dim mwy

*“Ond, pan ddaw’r hyn sy’n gyflawn, fe ddiddymir yr hyn sy’n anghyflawn.”
(adn. 10)*

Beth am ddarllen 1 Corinthiaid 13:1–13 ac yna myfyrio

Yr ydym am edrych yn awr ar nodwedd arall o fywyd y nefoedd. Mae’n lle o berffeithrwydd absoliwt.

Yn y ddwy bennod olaf yn llyfr y Datguddiad, mae Ioan yn defnyddio nifer o ymadroddion negyddol er mwyn ein cynorthwyo i ddatblygu darlun o’r nefoedd. Ni fydd marwolaeth, ni fydd llefain na galar, ni fydd poen, ni fydd mellthith, ni fydd loes, ac yn y blaen. Fe ddisgrifir y ddwy bennod olaf yma yn Datguddiad gan nifer o esbonwyr fel y ddwy bennod ‘ni fydd’. Mae Ann Griffiths yn disgrifio’r nefoedd yn y geiriau canlynol:

Byw heb wres na haul yn taro,
byw heb allu marw mwy,
pob rhyw alar wedi darfod,
dim ond canu am farwol glwy.

A’r un modd, mae Pantycelyn yn mynegi yr un disgwyliad:

Nid oes gofid, nid oes terfysg,
nid oes achwyn o un rhyw,
nid oes poen ac nid oes galar
o fewn dinas bur fy Nuw;
cariad perffaith
yno sy’n anadlu’r lle.

Y rheswm dros berffeithrwydd y nefoedd yw fod pechod, achos pob amherffeithrwydd, wedi ei ddisodli a heb le o gwbl yn y ddinas dragwyddol. Ond a yw’n bosibl y bydd i bechod dorri allan eto yn y nefoedd? Fe wnaeth unwaith yn hanes y Diafol. A ddaw rhywun eto i dorri ar brydferthwch a harmoni presenoldeb Duw? Does dim perygl. Nid yn unig y bydd pechod yn amhosibl, ond ni fydd hyd yn oed meddwl am bechod. Mi fydd hyn mor amhosibl i ni ag yw i’r Gwaredwr, yr un yr ydym yn awr yn byw yn ei gwmmi.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Dat. 21:1–7; Eseia 25:1–8; 35:10; 51:11; 60:20; Dat. 7:17

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Darlun o beth yw Seion?
2. Beth fydd yn dod yn ei lle?

Gweddi

O Dad, rwy’n diolch i ti na fydd y nefoedd byth eto yn gartref i bechod. Mi fydd fy nghalon i a chalonnau fy mrodyr a’m chwiorydd wedi eu gorlenwi â’th bresenoldeb di i’r fath raddau ag y bydd yn lladdfa i bechod. Rwy’n edrych ymlaen at y dydd hwnnw. Yn enw Iesu. Amen.